GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.

LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig o dan adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L

200[ ] Rhif

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

DATGANOLI, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 6) 2008

Wedi'i wneud - - - - ***

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1

Yn Llys Palas Buckingham, y *** dydd o *** 2008

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi y Frenhines yn ei Chyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**) mae drafft o'r Gorchymyn hwn wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig ac wedi'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, drwy ei Chyfrin Gyngor a chydau'u cyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 6) 2008 a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

Diwygiadau i Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

2.—(1) Diwygir Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(**a**) 2006 (p.32)

(2) Ym Maes 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd) mewnosoder—

"Mater 9.[ ]

Darpariaeth ar gyfer y canlynol ac mewn cysylltiad â hwy—

(a) asesu personau sydd neu a allai fod yn bersonau ag anhwylder meddwl gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru;

(b) dyletswyddau ar y gwasanaeth iechyd yng Nghymru i ddarparu triniaeth i bersonau ag anhwylder meddwl;

(c) eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol i bersonau sydd neu a allai fod yn bersonau ag anhwylder meddwl.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys asesiadau, triniaeth neu eiriolaeth i bersonau sy'n cael eu cadw, sy'n agored i gael eu cadw neu sy'n agored i gael eu galw'n ôl o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (neu unrhyw addasiad neu ailddeddfiad statudol arni)."

(3) O dan y pennawd "Dehongli'r maes hwn" cyn y diffiniad o "rhwymedigaeth gymwys mewn camwedd" mewnosoder—

"ystyr "personau ag anhwylder meddwl" yw personau sydd ag unrhyw anhwylder neu anabledd meddwl".

Clerc y Cyfrin Gyngor

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Effaith y Gorchymyn yw estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau newydd ar gyfer Cymru drwy Fesur o dan adran 93 o Ddeddf 2006.

Mae Erthygl 2 yn mewnosod mater 9.[ ] newydd ym Maes 9 (iechyd a gwasanaethau iechyd). Mae'r mater newydd sy'n cael ei fewnosod yn ymwneud â darparu ar gyfer asesu a thrin personau ag anhwylder meddwl nad ydyn nhw wedi'u cadw, yn agored i gael eu cadw neu'n agored i gael eu galw'n ôl o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a darparu gwasanaethau eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ar eu cyfer. Bydd unrhyw ddarpariaeth mewn Mesur Cynulliad sy'n ymwneud â mater 9. [ ] newydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd y mater hwn ac adran 94(4) o Ddeddf 2006.